Rhestr testunau cystadlaethau llên Eisteddfod Caerdydd

Beirniad: **Emyr Davies**

Dyddiad yr Eisteddfod: **dydd Gwener 17 Ionawr 2020**

Lleoliad yr Eisteddfod: **Ysgol Plasmawr, y Tyllgoed**

Dyddiad cau: **6pm dydd Gwener 6 Rhagfyr 2019**

Derbynnir ceisiadau dros e-bost neu drwy'r post at yr ysgrifennydd:

cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru

Glenys Llewelyn, 7 Lloyd Avenue, Llandaf, Caerdydd, CF5 2BX

Croeso i athrawon anfon ceisiadau disgyblion i gyd gyda'i gilydd.

Rhaid cynnwys y canlynol ar eich cais:

i. llysenw
ii. rhif y gystadleuaeth
iii. dyddiad geni (ar gyfer cystadlaethau 42 i 46)

Dylech hefyd gynnwys eich enw a manylion cyswllt ar wahân yn yr e-bost, neu ar ddarn o bapur ar wahân os yn anfon drwy'r post.

Cysylltwch â cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru gydag unrhyw gwestiwn neu ymholiad. Pob lwc!

Cystadlaethau llên Eisteddfod Caerdydd

Beirniad: **Emyr Davies**

Rhif	Cystadleuaeth	Manylion	Gwobr
39	Limrig yn cynnwys y llinell **es adre ar ddiwedd y noson**	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
40	Englyn ar y testun **cwmwl**	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
41	Cerdd heb fod dros 50 llinell ar y testun **strydoedd**	Cystadleuaeth agored i bawb.	£40
42	Cerdd, ymson, stori ddychmygol neu rhan o ddyddiadur ar y testun **unrhyw anifail**	Disgyblion blwyddyn 2 i 4 yn unig.	£10
43	Cerdd, ymson, stori ddychmygol neu rhan o ddyddiadur ar y testun **unrhyw anifail**	Disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn unig.	£10
44	Cerdd, ymson, stori ddychmygol neu rhan o ddyddiadur ar y testun **y cyfryngau cymdeithasol**	Disgyblion blwyddyn 7 i 9 yn unig.	£10
45	Cerdd, ymson, stori ddychmygol neu rhan o ddyddiadur ar y testun **y cyfryngau cymdeithasol**	Ddisgyblion blwyddyn 10 i 13 yn unig.	£10
46	Tlws yr ifanc. Dyfernir tlws yr ifanc am un darn o waith llenyddol. Gall fod yn gerdd, stori, ysgrif neu bortread ar y thema: **mam-gu** neu **tad-cu**	Yn agored i unigolion 25 oed ac iau.	£50

Bydd y rhestr testunau a'r rheolau'n llawn ar gael yn www.eisteddfodcaerdydd.cymru erbyn mis Medi!